



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

DOGFENNAU CLYWELED, TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL DDIGIDOL A MOESEG

Dr Sarah Colley, Ymchwilydd Annibynnol, SMC Research and Consultancy

Mae perygl o fod yn rhy gyfarwyddiadol ynghylch moeseg. Mae gan bobl wahanol syniadau am yr hyn sy'n foesebol (neu ddim) gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Amcan fy mhapur yw codi ymwybyddiaeth o foesebol fel rhan o lythrennedd digidol ac annog beirniadaeth fwy meddylgar a gwybodus o ymarfer treftadaeth ddigidol.

Bydd sefydliadau treftadaeth a gweithwyr treftadaeth proffesiynol yn aml yn gysylltiedig ag, er enghraifft, prosiectau ar-lein cymunedol; defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu ag ymwelwyr neu'r gymuned; creu cynrychioliadau digidol o leoedd a gwrthrychau treftadaeth; ac adrodd storïau clyweled am hanes a threftadaeth.

Ymddengys fod rhai heriau a godir gan dreftadaeth ddigidol yn fwy 'technegol' na 'moesegol' er bod hynny hefyd yn fater o farn. Rhai enghreifftiau yw: sut i reoli a gwneud y defnydd gorau o symiau mawr o wybodaeth ddigidol; sicrhau bod gwrthrychau digidol yn cael eu diogelu a bod modd eu cyrchu yn y dyfodol; cydymffurfio â fframweithiau cyfreithiol a moesegol yn ymwneud â hawliau digidol a phreifatrwydd; dylunio technoleg sy'n hybu ac yn gwella mynediad teg i gynnwys digidol. Mae materion moesegol a materion eraill sy'n codi yn sgil rhyngweithiad cyhoeddus a chyfathrebu ar-lein ar y llwyfannau cyfryngau 'cymdeithasol' a gynhyrchir gan y cwmnïau technoleg mawr yn peri cryn bryder i'r cyhoedd ar hyn o bryd ac maent yn berthnasol iawn i dreftadaeth ddigidol. O ystyried cwmpas eang y topig cyffredinol, byddaf yn canolbwyntio'n bennaf ar foesebol treftadaeth ddigidol mewn prosiectau lle mae cynrychioliadau clyweled yn codi cwestiynau moesegol yn gysylltiedig â 'realiti', gwirionedd, dilysrwydd ac ymddiriedaeth.

Oherwydd y gall prosiectau digidol fod yn gostus a chymhleth, bydd ymarferwyr treftadaeth yn aml yn cydweithio ag arbenigwyr technoleg a chyfryngol y mae ganddynt, efallai, wahanol safbwyntiau moesegol am eu gwaith.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Bydd fy mhapur felly yn ymdrin â'r drafodaeth ar foeseg yn y diwydiannau dylunio technoleg a chyfryngau digidol (e.e. cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu dogfennol a 'ffeithiol') yn ogystal ag ym maes ehangach arferion treftadaeth ddiwylliannol.

Bywgraffiad

Hyfforddodd Sarah Colley fel archaeolegydd ac mae ganddi flynyddoedd lawer o brofiad o weithio mewn addysg uwch, o waith ymchwil, ac o ymarfer treftadaeth ddiwylliannol proffesiynol yn Awstralia a'r DU. Ei diddordebau ymchwil hirdymor yw moeseg broffesiynol, archaeoleg gyhoeddus, addysg, a chymhwyso technolegau digidol ym meysydd archaeoleg a threftadaeth. Roedd hi'n gysylltiedig â datblygu delweddiadau cyfrifiadurol cynnar ar gyfer archaeoleg ac ers hynny mae hi wedi gweithio ar archifau digidol cynaliadwy, cronfeydd data o ddelweddau, cynhyrchu fideo, a rhaglenni meddalwedd 'data mawr' mewn archaeoleg. Mae hi ar hyn o bryd yn ymchwilydd annibynnol ac yn Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerlŷr.